

# CYNLLUN YSGOLION HEDDWCH CYMRU

## MENTRAU ATEGOL

Rydyn ni'n gwybod bod ysgolion yn llefydd prysur, gyda llawer o ofynion sy'n gwrthdaro ar amser y staff.

Rydyn ni'n cydnabod efallai fod llawer o lwybrau at gyflawni eich statws Ysgolion Heddwch, ac y gall gwaith ar gynlluniau a mentrau cysylltiedig eich helpu chi i gyflawni'r deilliannau sydd wedi'u nodi yn eich Cynllun Gweithredu.

Wedi'u rhestru isod mae rhai cynlluniau a mentrau perthnasol a all eich helpu chi i gael eich statws Ysgolion Heddwch.

### Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Unicef

Gweler: [www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/](http://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/)

Mae'r dyfarniad yn galluogi ysgolion i gynnwys gwerthoedd ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eu bywyd bob dydd, ac mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrifol.

### Ysgolion Noddfa

Gweler: <https://schools.cityofsanctuary.org/>

Mae Ysgolion Noddfa yn ymroi i fod yn llefydd diogel, croesawgar a chynhwysol i bawb, yn arbennig i geiswyr lloches. Mewn Ysgolion Noddfa, mae'r disgyblion yn dysgu beth mae ceisio lloches yn ei olygu; mae'r staff yn cymryd camau cadarnhaol i gynnwys cysyniadau croeso, diogelwch a chynhwysiant yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach; ac mae'r ysgol yn dathlu ac yn rhannu ei gweledigaeth a'i llwyddiannau.

### Prosiect Llais nid Trais (AVP)

Gweler: <https://avpbritain.org.uk/>

Elusen genedlaethol a sefydliad rhyngwladol yw Llais nid Trais, sy'n cefnogi pobl i fagu'r hyder a meithrin y sgiliau i ymdrin â thrais yn eu bywydau mewn modd creadigol di-drais drwy weithdai rhyngweithiol ar wahanol lefelau. Gall hyfforddi rhai aelodau o staff a disgyblion yn eich ysgol fod yn rhan o hyrwyddo cydberthnasau parchus a chytûn, a gallai gefnogi cynlluniau megis mentrau gwrth-fwlio, cynorthwyo cyfoedion a myfyrio. Cynhelir y gweithdai gydag oedolion fel arfer, ond byddai'n hawdd eu haddasu ar gyfer ysgolion.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â [coordinator@avpwales.org.uk](mailto:coordinator@avpwales.org.uk) or [development@avpwales.org.uk](mailto:development@avpwales.org.uk)

## Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Gweler: [www.wcia.org.uk/cy/](http://www.wcia.org.uk/cy/)

Ysbrydoli i ddysgu a gweithredu ar faterion byd-eang ymhlith pobl ifanc yw cenhadaeth Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Gall ysgolion ymwneud â gweithdai a mentrau megis Cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig neu'r cynllun Creu Newid a/neu adnoddau Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru i annog trafodaeth, meddwl yn feirniadol a sgiliau'r disgyblion fel dinasyddion gweithgar yn fyd-eang.

## Athroniaeth ar gyfer Plant (P4C):

Gweler: [www.sapere.org.uk/](http://www.sapere.org.uk/)

Dull sy'n galluogi a grymuso disgyblion i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol, cwestiynu a rhesymu'n dda, dysgu a chyfathrebu â'i gilydd mewn ffordd feddwl-agored, gydweithredol a pharchus yw Athroniaeth ar gyfer Plant. Anogir disgyblion i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu ac i feddwl dros eu hunain yn well. Darperir hyfforddiant a chymorth i ysgolion sy'n datblygu Athroniaeth ar gyfer Plant gan [SAPERÉ](http://www.sapere.org.uk/).

## Prosiect Addysg Hedd Mewn Ysgolion – Cyfarfod Crynwyr Canolbarth Cymru

Gweler: [www.crynwyrcanolbarth.cymru/cy](http://www.crynwyrcanolbarth.cymru/cy)

Mae prosiect Addysg Hedd Mewn Ysgolion yn cynnig rhaglen 10 awr yr wythnos dros chwech wythnos i ysgolion, gyda'r nod o greu awyrgylch heddychlon mewn ysgolion, lle mae disgyblion yn trin ei gilydd â pharch, yn cydweithio, ac yn datrys problemau mewn modd adeiladol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cydlynnydd drwy [leigh\\_munton@hotmail.com](mailto:leigh_munton@hotmail.com)

## Mala Heddwch

Gweler: [www.peacemala.org.uk/](http://www.peacemala.org.uk/)

Mae'r fenter hon yn galluogi ysgolion i feithrin goddefgarwch rhwng gwahanol ddiwylliannau a ffydd drwy greu, lledaenu a gwisgo mala symbolaidd sydd â gleiniau'n cynrychioli sawl ffydd. Mae'r cynllun yn annog dinasyddiaeth fyd-eang a chyd-ddibyniaeth, a pharch at hawliau dynol. Mae'n meithrin parch at y naill a'r llall a chyfeillgarwch, ac mae'n gwrthwynebu bwlio a phob math o ragfarn.

Os ydych chi'n gwybod am fentrau neu brosiectau eraill a all gefnogi eich datblygiad fel Ysgol Heddwch, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eu hychwanegu at y rhestr hon.